## PWYLLGOR AR FATERION EWROPEAIDD

| | |
|---|---|
| Dyddiad: | 9 Mawrth 2000 |
| Lleoliad: | Ystafell Pwyllgor 1 |
| Teitl: | INTERREG III (2000-2006) |

### Diben

1. Hysbysu aelodau'r pwyllgor am y datblygiadau diweddaraf.

### Argymhellion

2. Gwahoddir y Pwyllgor i nodi cynnwys yr adroddiad.

### Cefndir

3. Mae rhaglen INTERREG III, sy'n adeiladu ar brofiad Mentrau INTERREG y gorffennol, yn cael ei datblygu ar gyfer 2000-2006. Cyhoeddodd y Comisiwn Ewropeaidd ei Ganllawiau drafft ar gyfer INTERREG III ar 13 Hydref 1999, ac mae wrthi'n ymgynghori ag Aelod Wladwriaethau a Senedd Ewrop ynghylch cynnwys y canllawiau. Mae'n debygol y cyhoeddir y Canllawiau terfynol yn y Gwanwyn (tua mis Mawrth 2000). Bydd gan Aelod Wladwriaethau hyd at chwe mis i gyflwyno'u cynlluniau ar gyfer y rhaglen newydd.

4. Ceir tri llinyn i'r rhaglen INTERREG newydd :-

- **cydweithrediad trawsffiniol –** datblygu canolfannau economaidd a chymdeithasol trawsffiniol drwy strategaethau ar y cyd ar gyfer datblygu tiriogaethol cynaliadwy (Llinyn A)

- **cydweithrediad rhyngwladol** – hybu lefel uwch o integreiddio tiriogaethol ar draws grwpiau mawr o ranbarthau Ewrop, gyda golwg ar ddatblygu cynaliadwy, cytûn a chytbwys yn yr Undeb Ewropeaidd a gwell integreiddio tiriogaethol gyda gwledydd sy'n ymgeisio a gwledydd ffiniol eraill (Llinyn B)

- **cydweithrediad rhyng-ranbarthol –** gwella effeithiolrwydd polisïau ac offerynnau ar gyfer datblygu a chydlyniant rhanbarthol drwy rwydweithio, yn enwedig ar gyfer y

rhanbarthau sydd ar eu hôl hi o ran datblygu a’r rhai sydd wrthi’n newid (Llinyn C)

5. Bydd dau linyn o ddiddordeb penodol i Gymru:

**Llinyn A – Rhaglen Iwerddon/Cymru –** bydd yn adeiladu ar y rhaglen bresennol.

- Mae’r Comisiwn wedi cynnig y dylai’r ardal gymwys aros yr un peth â’r rhaglen bresennol. Mae’n seiliedig ar hen siroedd Gwynedd a Dyfed. Gall ardaloedd cyfagos gymryd rhan hefyd, ond mae angen i hynny gael ei glustnodi yn y Ddogfen Raglennu Sengl.
- Mae trafodaethau cychwynnol rhwng swyddogion Cynulliad Cenedlaethol Cymru a’r Adran Gyllid yn Nulyn wedi’u cynnal.
- Mae cynnwys y rhaglen yn debygol o fod yn debyg i’r rhaglen bresennol, er efallai y caiff rhai newidiadau eu gwneud yng ngoleuni’r profiad a gafwyd wrth redeg y rhaglen bresennol.
- Rhaid i’r cynlluniau gael eu hysgrifennu ar y cyd gan Gymru ac Iwerddon, a rhaid i’r holl bartneriaid perthnasol gymryd rhan ym mhob cam o’r broses.

**Llinyn B –** Mae’n debygol y bydd Cymru’n gymwys am arian gan ddwy raglen:

- **Gogledd-Orllewin Ewrop-** bydd y rhaglen hon yn cynnwys arwynebedd daearyddol mawr, gan gynnwys Iwerddon a’r DU gyfan, Gwlad Belg a Luxembourg a rhannau o Ffrainc, yr Almaen a’r Iseldiroedd. Bydd yn ffynhonnell bwysig o arian ar gyfer cyd-brosiectau rhwng ardaloedd o’r Iwerddon a Chymru nad ydynt yn gymwys am arian o dan Linyn A, yn ogystal â chysylltiadau gyda gwledydd eraill Ewrop.

- **Ardal yr Iwerydd –** bydd y rhaglen hon yn cynnwys Iwerddon gyfan, Cymru gyfan, arfordir gorllewinol Ffrainc, arfordir gogleddol Sbaen a Phortiwgal gyfan.

**Llinyn C -** ceir cronfa gyffredinol ar gyfer rhwydweithio, cyfnewid profiad a sefydlu’r Arsyllfa. Bydd yn ariannu prosiectau rhwng rhanbarthau nad ydynt o reidrwydd yn agos i’w gilydd. Dyma estyniad i hen Erthygl 10 y Gronfa Datblygu Rhanbarthol Ewropeaidd (CDRhE), a arferai ariannu’r math hwn o weithgaredd.

**Dyraniadau Ariannol**

6. Mae cyfanswm o 362 miliwn euro (rhyw £234 miliwn) wedi’i glustnodi i’r Deyrnas Unedig ar gyfer INTERREG yn 2000-2006. Rhaid dyrannu o leiaf 50% i Linyn A. Mae’n rhy gynnar i amcangyfrif cyfanswm yr adnoddau sy’n debygol o gael eu clustnodi i raglen Cymru/Iwerddon Llinyn A.

**Cydymffurfio**

7. O dan Adran 33 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998, caiff y Cynulliad ystyried a gwneud sylwadau ynghylch materion sy’n effeithio ar Gymru.

**Themâu Trawsbynciol**

8. Ymgynghorwyd ag Adrannau Polisi sydd â diddordeb (megis yr Amgylchedd a Thrafnidiaeth) a byddant yn rhan o’r trafodaethau bob cam o’r ffordd.

**Cyswllt**

9. Adran Materion Ewropeaidd